3: Local authorities are saving money by closing small village schools. Children have to travel by bus to a larger school in a nearby town.

Mae awdurdodau lleol yn arbed arian drwy gau ysgolion pentref bach. Mae'n rhaid i blant deithio ar fws i ysgol fwy mewn tref gyfagos.



4: Health Boards are closing local hospitals in a number of towns around Wales. Medical services are being centralised in more modern large hospitals where better treatment facilities can be provided.

Mae Byrddau Iechyd yn cau ysbtyai lleol mewn nifer o drefi o amgylch Cymru. Mae gwasanaethau meddygol yn cael eu canoli mewn ysbtyai mawr mwy modern lle gellir darparu gwell cyfleusterau triniaeth.



4 Renovating a cottage

Language notes

Welsh has a short form **present and future tense**.

It may seem surprising that the same tense can describe events in both the present and future. However, this is similar to usage in English. Consider two sentences with the verb 'take' :

'I take the food out of the oven and we sit down to eat' - happening now.

'I take the car to be serviced next Thursday' - happening in the future.

The time of the event is made clear by the context of the sentence.

The short form present and future is again produced by adding a set of standard endings to a verb noun. Taking '**dringo**' (climb) as an example:

dringaf i'r mynydd	I climb/will climb the mountain
dringai di'r mynydd	you climb/will climb the mountain
dringiff/-ith e/o/hi'r mynydd	he/she climbs/will climb the mountain
dringwn ni'r mynydd	we climb/will climb the mountain
dringwch chi'r mynydd	you climb/will climb the mountain
dringan nhw'r mynydd	they climb/will climb the mountain

The pronouns **fe** (South Wales) or **mi** (North Wales) may again be placed before the verb to indicate that the sentence is a positive statement rather than a question. The pronoun causes a soft mutation, for example:

Fe ddarllenaf i'r llyfr. **Mi weliff o y ffilm newydd**

The four common verbs: **cael**, **mynd**, **dod** and **gwneud**, have irregular forms:

cael - have	present/future: I have a meeting, you have a meeting, etc.	
	singular	plural
1st person	caf i gyfarfod	cawn ni gyfarfod
2nd person	cei di gyfarfod	cewch chi gyfarfod
3rd person	ceith o/e/hi gyfarfod	cân nhw gyfarfod
mynd - go	present/future: I go to the town, you go to the town, etc.	
	singular	plural
1st person	af i i'r dref	awn ni i'r dref
2nd person	ei di i'r dref	ewch chi i'r dref
3rd person	aiff/eith e/o/hi i'r dref	ân nhw i'r dref
dod - come	present/future: I come home, you come home, etc.	
	singular	plural
1st person	dof i adref	dewn ni adref
2nd person	doi di adref	dewch chi adref
3rd person	doth e/o/hi adref	dôn nhw adref

gwneud - do, make present/future: I make a promise, you make a promise, etc.

	singular	plural
1st person	gwnaf i addewid	gwnawn ni addewid
2nd person	gwnei di addewid	gwnewch chi addewid
3rd person	gwnaith e/o/hi addewid	gwnân nhw addewid

The present tense also has a **cwmpasog** long form produced combining the present tense of '**bod**' with a verb noun, as we saw in session 1:

rydw i'n cerdded, rwyt ti'n cerdded, etc..

A long form **future** tense is produced in a similar way by combining the future tense of '**bod**' with a verb noun. For example:

byddaf i'n mynd i'r parti	I will go to the party
byddi di'n mynd i'r parti	you will go to the party
bydd e/o/hi'n mynd i'r parti	he/she will go to the party
byddwn ni'n mynd i'r parti	we will go to the party
byddwch chi'n mynd i'r parti	you will go to the party
byddant nhw'n mynd i'r parti	they will go to the party

Treigladau

Personal pronouns indicate possession. These are generally placed before a noun:

fy siop	my shop	ein cartref	our home
dy ardal	your area	eich fferm	your farm
ei newyddion	his news	eu syniadau	their ideas

In Welsh, a personal pronoun can also be placed after the noun. This is usually done for emphasis:

fy siop i	<u>my</u> shop	ein cartref ni	<u>our</u> home
dy ardal di	<u>your</u> area	eich fferm chi	<u>your</u> farm
ei newyddion e/o	<u>his</u> news	eu syniadau nhw	<u>their</u> ideas

After some consonants, the first person singular pronoun **fy** causes a nasal mutation (**treiglad trwynol**). These consonants are:

p	fy mhlant	my children	(plant)
t	fy nhŷ	my house	(tŷ)
c	fy nghar	my car	(car)
b	fy mwrdd	my table	(bwrdd)
d	fy nrws	my door	(drws)
g	fy ngardd	my garden	(garðd)

The second person singular pronoun **dy** causes a soft mutation (**treiglad meddal**) after a larger number of consonants:

p	dy blant	your children	(plant)
t	dy dŷ	your house	(tŷ)
c	dy gar	your car	(car)
b	dy fwrdd	your table	(bwrdd)
d	dy ddrws	your door	(drws)

g	dy ardd	your garden	(gardd)
ll	dy law	your hand	(llaw)
rh	dy rieni	your parents	(rhieni)
m	dy ferlyn	your pony	(merlyn)

Finally, the third person singular pronoun **ei** representing a **masuline** subject causes a soft mutation (**treiglad meddal**), but **ei** representing a **feminine** subject causes an aspirant mutation (**treiglad llaes**).

The **treiglad llaes** affects only three consonants:

p	ei phen hi	her head	(pen)
t	ei thad hi	her father	(tad)
c	ei char hi	her car	(car)

The behaviour of the mutations indicates the gender of the subject where this is not explicitly stated in a sentence:

ei fam	his mother	ei mam	her mother
ei gar	his car	ei char	her car
ei rieni	his parents	ei rhieni	her parents

No treigladau are applied to the plural pronouns **ni**, **chi**, and **eu**.

Two other useful pronouns are the stand-alone words 'these' **y rhain** and 'those' **y rheiny**:

Ai eich llyfrau chi ydy'r rhain? Are these your books?
Y rheiny ydy fy nillad. Those are my clothes.

'these' and 'those' do not take a mutation.

Idioms

The word '**er**' is most commonly translated as the English 'although':

Er nad ydy e'n cwrdd â ffrindiau yn aml, roedd yn mwynhau'r parti.
 Although he does not meet friends often, he was enjoying the party.

'er' appears in a number of idioms:

er gwaethaf - despite:

Fe wnaethon nhw nofio yn y llyn er gwaethaf yr hysbysiad rhybuddio.
 They swam in the lake despite the warning notice.

er mwyn - for the sake of

Dylech roi'r gorau i ysmygu er mwyn eich iechyd.
 You should stop smoking for the sake of your health.

er hynny - despite that

Ymddiheuodd, ond er hynny collodd ei swydd.
 He apologised, but despite that he lost his job.

ers tro - for a long time

Dydw i ddim wedi mynd i'r theatr ers tro.
 I have not been to the theatre for ages.

er lles - for the benefit of

Adeiladodd y ffermwr y sied er lles y gwartheg.

The farmer built the shed for the benefit of the cattle.

er maint - despite the size of

Mae'n adnabod pawb sy'n gweithio yna er maint y ffatri.

He knows everyone who works there despite the size of the factory.

Sentences

Fydd e'n teithio i Ffrainc?

Will he travel to France?

Faint o fyfyrwyr fydd yn y dosbarth?

How many students will be in the class?

Bydd angen i mi fynd at y meddyg yfory.

I will need to go to the doctor tomorrow.

Bydd Dewi yn mynd i brifysgol yn yr hydref.

Dewi will go to university in the autumn.

Bydd y trên o Abertawe yn cyrraedd yn fuan.

The train from Swansea will arrive soon.

Fe ddechreuiff y band chwarae pan fydd y maer yn cyrraedd.

The band will start playing when the mayor arrives.

A wnewch chi gerdded ar draws y cae neu ar hyd y ffordd?

Will you walk across the field or along the road?

A fyddant yn cwympo'r hen goeden wrth y tŷ?

Will they fell the old tree by the house?

Os byddwch chi'n ffonio yfory, byddaf yn rhoi'r wybodaeth i chi.

If you phone tomorrow, I will give you the information.

Bydd y trydanwr yma cyn bo hir a bydd e'n atgyweirio'r peiriant.

The electrician will be here soon and he will repair the machine.

Byddant yn colli eu swyddi pan fydd y ffatri'n cau y flwyddyn nesaf.

They will lose their jobs when the factory closes next year.

Y tro nesaf y byddwch chi'n gweld Mr Jones, a wnewch chi ofyn iddo am y ffenestr wedi torri?

The next time you see Mr Jones, will you ask him about the broken window?

A fydd penllanw pan gyrraeddwn yr arfordir?

Will it be high tide when we arrive at the coast?

Bydd y tocyntau'n ddrytach na'r llynedd.

The tickets will be more expensive than last year.

Dydw i ddim yn hoffi'r rhain. Mae'r rheiny'n well.

I don't like these. Those are better.

Bydd gwartheg yn y cae felly bydd yn rhaid i chi gymryd gofal.

There will be cattle in the field so you will have to take care.

Bydd y goeden dderw yno o hyd mewn hanner can mlynedd.

The oak tree will still be there in fifty years.

Dyweddodd ei fam y bydd e adref am saith o'r gloch.

His mother said that he will be home at seven o'clock.

A fyddant yn prynu'r hen ffermdy yn Bordeaux?

Will they buy the old farmhouse in Bordeaux?

Fe awn ni yno yn ystod y drydedd wythnos ym mis Awst.

We will go there during the third week in August.

Article: Renovating a cottage



Yn y gorffennol roedd yna lawer o ffermydd bach yng Nghymru.

In the past there were many small farms in Wales.

Mae rhai tai fferm a bythynnod gweithwyr wedi bod yn wag ers llawer o flynyddoedd.

Some farm houses and workers' cottages have been empty for many years.

Daeth Dewi a Catherine o hyd i hen dŷ ar werth yn rhad iawn.

Dewi and Catherine found an old house for sale very cheaply.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr gwael, ond roeddent yn hapus i'w atgyweirio a byw yno.

The building was in a poor condition, but they were happy to repair it and live there.

Roedd llechi ar goll o'r to, roedd ffenestri wedi torri a'r ardd wedi tyfu'n wylt gyda llwyni.

Slates were missing from the roof, windows were broken and the garden had become overgrown with bushes.

Nid oedd trydan, dim cyflenwad dŵr a dim ystafell ymolchi.

There was no electricity, no water supply and no bathroom.

Cafodd y simnai ei rhwystro gan nythod adar.

The chimney was blocked by birds' nests.

Mae Dewi a Catherine eisiau gwarchod cymeriad hanesyddol y tŷ.

Dewi and Catherine want to preserve the historic character of the house.

Byddant yn cadw'r waliau cerrig a'r trawstiau nenfwd yn yr ystafelloedd lawr grisiau.

They will keep the stone walls and ceiling beams in the rooms downstairs.

Maent yn atgyweirio'r to ac yn amnewid y ffenestri a'r drysau.

They are repairing the roof and replacing the windows and doors.

Maent yn adeiladu estyniad newydd yn y cefn gyda chegin ac ystafell ymolchi.

They are building a new extension at the back with a kitchen and bathroom.

Bydd dŵr yn dod trwy beipen o ffynnon ar ochr y bryn.

Water will come through a pipe from a spring on the hillside.

Bydd tyrbin gwynt bach a phaneli solar yn cynhyrchu trydan.

A small wind turbine and solar panels will generate electricity.

Speaking and writing challenge

What work might be needed to repair and renovate a house which has been unoccupied for many years?

Example article:

Y cam cyntaf cyn dechrau ar y gwaith adfer yw gwneud arolwg strwythurol, i wirio bod y waliau a'r to yn ddiogel.

Os yw pren y to wedi pydru, rhaid eu hailosod.

Rhaid trwsio unrhyw graciau yn y waliau neu ymsuddiant.

Y cam nesaf yw atgyweirio'r to.

Bydd rhaid i amnewid unrhyw lechi rhydd, wedi torri neu ar goll.

Yna gellir gosod trawstiau pren newydd am loriau.

Ar y pryd hynny gall y perchenog ddewis newid cynllun y waliau mewnol.

Gellir gosod pibellau dŵr ar gyfer gwres canolog, y gegin a'r ystafelloedd ymolchi, ynghyd â gwifrau trydan.

Efallai y bydd angen ffenestri, drysau a grisiau newydd.

Gall waliau a nenfydau gael eu gorchuddio â bwrdd plastr ac yna eu plastro.

Y cam olaf yw paentio ac addurno'r ystafelloedd, a gosod gorchudd lloriau.

Story



Derbyniodd yr heddlu wybodaeth am grŵp o derfysgwyr.

The police received information about a group of terrorists.

Roedden nhw'n cuddio mewn tŷ ar gyrion y dref.

They were hiding in a house on the outskirts of the town.

Roedd y terfysgwyr yn cynllunio ymosodiad.

The terrorists were planning an attack.

Gwnaeth heddlu arfog gyrch ar y wawr, ond yn darganfod bod y tŷ yn wag.

Armed police made a raid at dawn, but discovered that the house was empty.

Roedd y grŵp wedi dianc yn gyflym, gan adael nodiadau a mapiau ar ôl.

The group had quickly escaped, leaving behind notes and maps.

Roedd y grŵp yn bwriadu ymosod ar y maes awyr gan ddefnyddio ffrwydron, a rhoi gwenwyn yng nghyflenwad dŵr y ddinas.

The group intended to attack the airport using explosives, and put poison in the city's water supply.

Ar yr adeg hon derbyniodd yr heddlu newyddion bod pobl wedi torri i mewn i'r gwaith trin dŵr.

At this time the police received news that people had broken into the water treatment works.

Dyweddodd yr heddlu wrth beirianwyr i atal y pympiau dŵr ar unwaith.

The police told engineers to stop the water pumps immediately.

Dangosodd prawf dŵr fod gwenwyn wedi'i ychwanegu.

A water test showed that poison had been added.

Anfonodd yr heddlu rybudd i'r maes awyr, ond roedd y terfysgwyr wedi ffoi.

The police sent a warning to the airport, but the terrorists had fled.

Wythnos yn ddiweddarach ar ôl chwiliad enfawr gan yr heddlu, daethpwyd o hyd i'r gang a'i arrestio.

A week later after a huge search by the police, the gang was found and arrested.

Use of Welsh: Horoscope

A newspaper publishes daily horoscopes for each of the signs of the zodiac. On the web page you are invited to translate some of the predictions into Welsh...

	ARIES
	March 21 to April 20
	TAURUS
	April 21 to May 21
	GEMINI
	May 22 to June 21

ARIES: Mawrth 21 i Ebrill 20.

ARIES: March 21 to April 20.

Gallai tasgau yn y gwaith yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl.

Tasks at work may take more time than expected.

Byddwch yn amyneddgar a pheidiwch â dadlau gyda'ch cydweithwyr.

Be patient and don't argue with your colleagues.

Byddai heddiw yn ddiwrnod da i gwrdd â ffrindiau newydd.

Today would be a good day to meet new friends.

Peidiwch ag aros yn rhy hir i gyflwyno eich hunan.

Don't wait too long to introduce yourself.

Cymherwch ofal ger dŵr pan fyddwch chi allan yng nghefn gwlad.

Take care near water when you are out in the countryside.

TAURUS: Ebrill 21 i Fai 21.

TAURUS: April 21 to May 21.

Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn y mae pobl yn ei dweud.

Listen carefully to what people are saying.

Mae ganddyn nhw rai syniadau a chyngor da.

They have some good ideas and advice.

Efallai y cewch broblemau gyda threfniadau teithio.

Perhaps you will have problems with travel arrangements.

Byddwch yn barod i ganslo’ch cynlluniau os oes angen.

Be ready to cancel your plans if necessary.

Byddwch yn ofalus am wario gormod o arian ar wyliau.

Be careful about spending too much money on a holiday.

Efallai y bydd angen i chi brynu pethau pwysig eraill.

You may need to buy other important things.

GEMINI: Mai 22 i Fehefin 21.

GEMINI: May 22 to June 21.

Defnyddiwr eich dychymyg i ddechrau prosiect creadigol newydd.

Use your imagination to start a new creative project.

Bydd eich teulu yn eich cefnogi pan fyddant yn gweld y pethau cyffrous rydych chi’n eu gwneud.

Your family will support you when they see the exciting things you are doing.

Efallai y bydd angen i chi gadw cyfrinach bwysig er mwyn osgoi cynhyrfu ffrind.

You may need to keep an important secret to avoid upsetting a friend.

Cymerwch ofal wrth ymweld â thref neu ddinas fawr.

Take care when visiting a large town or city.

Description



- Ydy hwn yn weithdy modern?
- Faint o gerbydau sy'n cael eu hatgyweirio?
- Sut mae'r mecaniddion yn gwneud gwaith o dan gar?
- Beth sydd ar goll o'r car yn y cefndir?
- Beth mae'r mecanig yn ei archwilio ar y car agosaf?

Understanding Welsh

Tyrbinau sy'n arnofio yn cynnig cyfle cynhyrchu fwy o egni adnewyddol

Gallai tyrbinau gwynt sy'n arnofio ar wyneb y dŵr chwarae rhan allweddol yn y nod o geisio cynhyrchu mwy o ynni adnewyddol o fewn y degawd nesaf.

Ar hyn o bryd mae Cymru'n cynhyrchu tua 50% o'i thrydan trwy ynni gwynt a'r haul. Wedi treialon llwyddiannus yn Yr Alban, mae gobaith y gall tyrbinau sy'n arnofio roi hwb i'r ymgyrch, gan y gellir eu defnyddio mewn mannau lle mae'r môr yn rhy ddwfn i godi tyrbinau cyffredin.

Roedd ceisiadau am ffermydd gwynt mawr yng nghefn gwlaid wedi denu gwrthwynebiad lleol. Ond fod potensial mawr i brosiectau ynni gwynt ar y môr. Yn wahanol i ynni haul, sy'n dibynnu ar y tywydd a'r amser o'r dydd, mae gwyntoedd arfordirol fwy neu lai yn ffynhonnell barhaus. Ond er bod filltiroedd o arfordir yng Nghymru, cynhyrchu trydan fod yn anodd mewn mannau am bod gwely'r môr yn gostwng yn ddramatig mewn sawl lleoliad.

Mae dulliau adnewyddol yn cynnwys ynni o'r haul, y llanw, tonnau'r mor, prosiectau hydro, a morlynnoedd llanw (tidal lagoons). Mae prosiectau morlynnoedd llanw yn ddrud, ac yn cymryd blynnyddoedd cyn cynnig gwerth am arian. Gallai hynny olygu na fyddent yn ddeniadol iawn pan fydd arian yn brin.

Where are the new floating wind turbines being tested?

Mae'r tyrbinau arnofiol yn cael eu profi ar arfordir yr Alban.

Why would floating wind turbines be a good idea for Wales?

Mewn mannau, mae gwely'r môr yn cwympo'n serth ac mae'r dŵr yn rhy ddwfn ar gyfer tyrbinau arferol.

Why are wind turbines a better energy source than solar power for Wales?

Mae ynni haul yn dibynnu ar y tywydd a'r amser o'r dydd, ond mae gwyntoedd arfordirol fwy neu lai yn barhaus.

What is the main disadvantage of a tidal lagoon for producing energy?

Mae prosiectau morlynnoedd llanw yn ddrud iawn ac yn cymryd llawer o flynyddoedd i dalu'r gost yn ôl.

How much electricity does Wales produce from wind and solar energy at the present time?

Mae Cymru'n cynhyrchu tua hanner o'i thrydan trwy ynni gwynt a'r haul.

Story board

Forestry

1: Many of the conifer forests in Wales were planted more than forty years ago and are reaching maximum height. Many trees are growing in thin soil on steep hillsides and must be harvested before they are blown down by strong winds during storms.

Plannwyd llawer o goedwigoedd conwydd yng Nghymru fwy na deugain mlynedd yn ôl ac maent yn cyrraedd yr uchder mwyaf. Mae llawer o goed yn tyfu mewn pridd tenau ar lethrau serth a rhaid eu cynaeafu cyn iddynt gael eu chwythu i lawr gan wyntoedd cryfion yn ystod stormydd.



2: Machines have been developed which can cut trees growing on steep slopes. The machine has an arm carrying a chain saw, and has tracks for moving over rough ground.

Mae peiriannau wedi'u datblygu a all dorri coed sy'n tyfu ar lethrau serth. Mae gan y peiriant fraich sy'n cario llif gadwyn, ac mae ganddo draciau ar gyfer symud dros dir garw.



3: Other machines can pick up and transport the cut timber to a collection point. On very steep slopes, the machines are lowered by a cable from the top of the slope.

Gall peiriannau eraill godi a chludo'r coed wedi'i dorri i fan casglu. Ar lethrau serth iawn, mae'r peiriannau'n cael eu gostwng gan gebl o ben y llethr.



4: Timber is placed in stacks beside a forest road. This can then be collected by lorry. The lorry carries its own crane to pick up and load the timber.

Rhoddir coed mewn pentyrrau wrth ymyl ffordd goedwig. Yna gellir casglu hwn gan lori. Mae'r lori yn cario ei chraen ei hun i godi a llwytho'r coed.



5 Public transport in Wales

Language notes

Conjunctions join different components within a sentence. In the simplest case, this may be two words, for example:

bws a thacsi	bus and taxi
papur a phensil	paper and pencil

The conjunction 'a' (and) causes an aspirate mutation (**treiglad llaes**).

Conjunctions can link two sentences. Where the sentences describe different events or ideas, a coordinating conjunction is used:

a and; **ond** but; **neu** or; **nid** not

For example:

Aeth i mewn i'r gegin ac agor yr oergell.

He went into the kitchen and opened the fridge.

(note that 'a' becomes 'ac' before a vowel)

Roedden ni'n bwriadu mynd ond roedd y tywydd yn ddrwg.

We intended to go but the weather was bad.

Fe allech chi dorri'r gwair neu fe allech chi blannu'r blodau.

You could cut the grass or you could plant the flowers.

Byddaf yn gwylia'r ffilm gartref nid gwylia'r ffilm yn y sinema.

I will watch the film at home not watch the film in the cinema.

In other cases, a conjunction may link a subsidiary clause to the main clause of the sentence. The subsidiary clause gives more information about the main clause, for example: when or why it happened, or the consequences of it happening.

Time conjunctions specify a time relationship. In some cases, these should be followed by the preposition 'i' or a tense of the verb '**bod**':

ar ôl	after;	pan	when;	cyn (i)	before;
erbyn (i)	by;	unwaith (bod)	once;	ers (i)	since;
wedi (i)	after;	hyd	until;	wrth (i)	while;
nes (i)	until;	tra (bod)	while;		

Examples are:

Byddaf yn mynd ar ôl gwylia'r ffilm

I will go after watching the film

Bydd yn cyrraedd erbyn i ni orffen y gwaith

He will arrive by the time we finish the work

Bydd cinio yn barod unwaith y bydd y llysiau wedi'u coginio

Lunch will be ready once the vegetables are cooked

Peidiwch â sefyll i fyny nes i mi ddweud wrthych chi

Don't stand up until I tell you

Reason conjunctions indicate why a relationship exists. They have the meaning 'as' or 'because' :

achos (bod) , **am (bod)**
oherwydd (bod), **gan (bod)**

Examples are:

- Rwy'n cerdded oherwydd bod y tywydd yn braf**
I am walking because the weather is fine
Byddaf yn stopio gan ei bod hi'n cwyno am y sŵn
I will stop as she is complaining about the noise

Result conjunctions indicate the outcome of a relationship. They have the meaning 'so' :

fel (bod), **felly**

An example is:

- Torrodd ei goes felly eu bod yn galw ambiwlans**
He broke his leg so they called an ambulance

Contrast conjunctions indicate a conflict within the relationship. They have the meaning 'although', 'despite' or 'while':

er (bod), **tra (bod)**

Examples are:

- Parhaodd i weithio er ei fod wedi blino**
He continued working although he was tired
Hoffais y stori, tra roeddwn i'n casáu'r cymeriadau
I liked the story, while I hated the characters

Purpose conjunctions indicate why a relationship exists:

er mwyn (i) in order; **fel (bod)** so; **rhag ofn** in case;

Examples are:

- Fe wnes i atgyweirio'r babell er mwyn i ni fynd i wersylla**
I repaired the tent in order that we can go camping
Byddwch yn ofalus rhag ofn i chi gwympo
Be careful in case you fall

Conditional conjunctions indicate a requirement for the relationship to exist:

os if; **pe (bai)** if; **oni bai** unless;

Examples are:

- Gallwch ei wneud os ceisiwch yn galetach**
You can do it if you try harder
Bydden ni'n helpu pe gallen ni
We would help if we could
Ni fyddwch yn gwybod oni bai eich bod yn gofyn
You will not know unless you ask

Treigladau

We have already discussed some situations in which a treiglad meddal is used:

When feminine nouns follow the article 'y' (the) :

y bont the bridge **pont** noun (f)

When one or more adjectives follow a feminine noun:

dinas fawr fywiog large lively city **mawr** adjective; **fywiog** adjective;

The pronouns **dy**, **ei** (masculine only) affect nouns which follow:

dy gôt your coat **côt** noun (f)

dy gar your car **car** noun (m)

ei lyfr his book **llyfr** noun (m)

Soft mutation occurs after the prepositions: **am**, **ar**, **at**, **dan**, **dros**, **gan**, **heb**, **hyd**, **i**, **o**, **tan**, **trwy**, **wrth**. For example:

Es i am dro trwy bentref heb weld neb.

I went for a walk through a village without seeing anyone.

tro walk; **pentref** village; **gweld** see;

We will now look at some other cases where a treiglad meddal is required.

Adjectives occurring before a noun cause a soft mutation of the noun:

hen dŷ old house **tŷ** noun (m)

hoff gerddoriaeth favourite music **cerddoriaeth** noun (f)

prif wlad main country **gwallad** noun (f)

The numbers **un** - one (feminine only) and **dau/dwy** - two - cause a soft mutation in a following noun, for example:

un ddafad, dwy ddafad, tair dafad **dafad** sheep (f)

one sheep, two sheep, three sheep

un llyfr, dau lyfr, tri llyfr **llyfr** book (m)

one book, two books, three books

A soft mutation is applied immediately after the subject of the sentence:

Gwelodd dynes (subject) gath yn y goeden

A woman (subject) saw a cat in the tree

The subject may sometimes be omitted, but a treiglad is applied after the point where the subject would have appeared:

Gwelodd ddyn yn y stryd

He (subject omitted) saw a man in the street

No treiglad is necessary if the article (**y** or '**r**') immediately follows the subject, as '**y**' does not take a treiglad:

Rhoddodd athro (subject) llyfr i'r myfyriwr

A teacher gave a book to the student

BUT

Rhoddodd athro (subject) y llyfr i'r myfyriwr

A teacher gave the book to the student

The commonly used words shown below are actually contractions of short phrases involving the verb form **gwel...** (see...)

- Dyma** (here is) - shortened from **gwel di yma** (you see here)
- Dyna** (there is) - shortened from **gwel di yna** (you see there)
- Dacw** (there is) - shortened from **gwel di acw** (you see over there)

This causes **dyma**, **dyna** and **dacw** to behave as if they are short form verbs, and cause a soft mutation of the object of the sentence. For example:

Dyna ddyn sy'n bwyta llawer
That (subject) is (verb) a man who eats a lot (*object*)

but again the soft mutation does not occur if the article is present:

Dyna'r dyn sy'n bwyta llawer
 That is the man who eats a lot

A soft mutation is applied where **yn** proceeds a noun or adjective, for example:

Mae'r dyn yn dew	The man is fat	tew	fat
Mae'r anifail yn gwning	The animal is a rabbit	cwning	rabbit

Idioms

The word '**gyda**' is usually translated as the English words 'with' or 'among':

Mae'n dŷ mawr gyda phedair ystafell wely.
 It is a large house with four bedrooms.

Mae adran gerddoriaeth y Brifysgol gyda'r gorau ym Mhrydain.
 The University's music department is one of the best in Britain.

'**gyda**' appears in a number of idioms:

gyda llaw - by the way

Gyda llaw, rhaid i ni orffen erbyn amser cinio.
 By the way, we must finish by lunch time.

gyda trêñ - by train

Mae llawer o ymwelwyr yn teithio i Gymru gyda trêñ.
 Many visitors travel to Wales by train.

gyda'r nos - in the evening

Rydyn ni'n mynd allan am bryd o fwyd gyda'r nos weithiau.
 We sometimes go out for a meal in the evening.

gyda'r post - by post

Rwy'n derbyn y cylchgrawn bob mis gyda'r post.
 I receive the magazine each month by post.

gyda hynny - at that moment

Gofynnodd am wirfoddolwyr ac gyda hynny daeth pobl ymlaen.
 He asked for volunteers and at that moment people came forward.

gyda'i gilydd - together

Maen nhw'n cytuno i weithio gyda'i gilydd ar y prosiect.

They agree to work together on the project.

gyda golwg ar - with the intention of

Es i Gaerdydd gyda'r golwg ar weithio yno.

I went to Cardiff with the intention of working there.

Sentences

Mae'n brifysgol fach gyfeillgar felly dewisais fynd yno.

It is a small friendly university so I chose to go there.

Gwyliais y rhaglen gyntaf yn y gyfres ond roedd yn ddiflas.

I watched the first program in the series but it was boring.

Fe wnaethon ni eistedd mewn cadeiriau cyfforddus yn y lolfa fawr wrth i ni aros.

We sat in comfortable chairs in the large lounge while we waited.

Mae eu merch yn ddeallus felly bydd hi'n gwneud yn dda yn yr arholiad.

Their daughter is intelligent so she will do well in the exam.

Cyfieithodd y myfyriwr y brawddegau cyn iddo fynd i'r dosbarth.

The student translated the sentences before he went to the class.

Mae'r gylchfan yma er mwyn i'r traffig lifo'n hawdd.

The roundabout is here in order that the traffic flows easily.

Roedden nhw yn y gegin pan ddaeth y postmon at y drws.

They were in the kitchen when the postman came to the door.

Mae ein swyddfa ar yr ugeinfed llawr ond mae'r olygfa o'r ffenestr yn ardderchog.

Our office is on the twentieth floor but the view from the window is excellent.

Rydyn ni'n mynd i'r mynyddoedd oni bai bod y tywydd yn stormus.

We are going to the mountains unless the weather is stormy.

Roedden ni heb fwyd am ddiwrnod oherwydd bod y siopau ar gau.

We were without food for a day because the shops were closed.

Gofynnodd i'r ymwelydd aros yn y dderbynfa nes i'r rheolwr gyrraedd.

He asked the visitor to wait at the reception until the manager arrived.

Rhoddon nhw'r cwch yn y dŵr er bod y tonnau'n uchel.

They put the boat in the water although the waves were high.

Ydy'r bwthyn ar lan y môr neu yng nghefn gwlad?

Is the cottage by the sea or in the countryside?

Roedd torf fawr yn aros y tu allan i'r theatr cyn iddi agor.

A large crowd was waiting outside the theatre before it opened.

Fe edrychon nhw drwy ffenestr pan glywon nhw bobl yn gweiddi.

They looked through a window when they heard people shouting.

Fe adawodd y cwsmer y bwtyt heb dalu.

The customer left the restaurant without paying.

Cysgodd y gath tan ddiwedd y prynhawn.

The cat slept until the end of the afternoon.

Cafodd ei anafu wrth chwarae pêl-droed.

He was injured while playing football.

Byddwn yn mynd â'r ci am dro pe bai gen i amser.

I would take the dog for a walk if I had time.

Sawl milltir yw hi i'r pentref rhag ofn y bydd yn rhaid i mi gerdded yno?

How many miles is it to the village in case I have to walk there?



Article: Public transport in Wales

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig i bobl sy'n byw yng Nghymru ac i ymwelwyr.

Public transport is important for people who live in Wales and for visitors.

Mae prif reilffordd yn rhedeg ar hyd arfordir y de trwy Gasnewydd a Chaerdydd, i Abertawe.

A main railway line runs along the south coast through Newport and Cardiff, to Swansea.

Mae hyn yn cysylltu â dinasoedd yn Lloegr ac mae'n bwysig i deithwyr busnes.

This connects to cities in England and is important for business travellers.

Caeodd y rhan fwyaf o'r rheilffyrdd yng nghymoedd De Cymru pan stopiodd y pyllau glo weithio, ond mae rhai leiniau wedi'u hailagor.

Most of the railways in the South Wales valleys closed when the coal mines stopped working, but some lines have reopened.

Mae'r leiniau hyn yn cludo pobl i weithio yng Nghaerdydd bob dydd.

These lines carry people to work in Cardiff each day.

Mae gan Gaerdydd gynlluniau ar gyfer system metro newydd.

Cardiff has plans for a new metro system.

Bydd tramiau'n teithio trwy strydoedd y ddinas, yna'n ymuno â'r rheilffordd ac yn rhedeg i drefi cyfagos.

Trams will travel through the city streets, then join the railway and run to nearby towns.

Mae'r rheilffordd yn parhau o Abertawe i Sir Benfro.

The railway continues from Swansea to Pembrokeshire.

Mae pobl yn defnyddio hyn i fynd i'r arfordir am wyliau, neu wrth deithio ar fferi i Iwerddon.

People use this to go to the coast for holidays, or when travelling by ferry to Ireland.

Yng Ngogledd Cymru, mae prif reilffordd arall yn rhedeg ar hyd yr arfordir trwy Fangor.

In North Wales, another main railway line runs along the coast through Bangor.

Mae'r lein yn parhau ar draws Ynys Môn i Gaergybi lle mae cysylltiad fferi arall i lwerddon.

The line continues across Anglesey to Holyhead where there is another ferry connection to Ireland.

Dim ond dwy lein reilffordd sy'n croesi canol Cymru.

Only two railway lines cross central Wales.

Mae'r teithiau'n araf, gan ganiatáu digon o amser i fwynhau golygfeydd hyfryd y mynyddoedd a'r arfordir.

The journeys are slow, allowing plenty of time to enjoy the beautiful scenery of the mountains and coast.

Mae gwasanaethau bysiau pellter hir yn cysylltu'r prif drefi, ac mae bysiau lleol yn gwasanaethu'r mwyafrif o bentrefi.

Long distance bus services connect the main towns, and local buses serve most villages.

Yn Eryri, gall cerddwyr deithio ar fws i ddechrau llwybrau troed i fyny'r Wyddfa.

In Snowdonia, walkers can travel by bus to the start of footpaths up Snowdon.

Mae hyn yn lleihau'r tagfeydd a achosir gan geir sydd wedi'u parcio ar ffyrdd cul o amgylch y mynydd.

This reduces the congestion caused by cars parked on narrow roads around the mountain.

Story



Roedd Suzi ac Anna yn ffrindiau ym mhrifysgol Caerdydd.

Suzi and Anna were friends at Cardiff university.

Mae'r ddwy bellach yn briod ac yn byw mewn gwahanol rannau o Dde Cymru.

Both are now married and living in different parts of South Wales.

Fe wnaethant gyfarfod ar hap mewn gorsaf reilffordd yn Llundain.

They met by chance in a railway station in London.

Roedd y ddwy ohonyн nhw'n aros am drêñ yn ôl i Gymru.

They were both waiting for a train back to Wales.

Roedd Suzi yn gweithio am ychydig ddyddiau yn swyddfa ei chwmni yn Llundain.

Suzi was working for a few days at her company's office in London.

Roedd Anna yn mynychu cynhadledd.

Anna was attending a conference.

Teithion nhw yn ôl gyda'i gilydd, gan drafod yn eiddgar bopeth a oedd wedi digwydd ers iddynt gyfarfod diwethaf.

They travelled back together, eagerly discussing everything that had happened since they last met.

Cyn gwahanu, fe wnaethant gyfnewid rhifau ffôn.

Before parting, they exchanged phone numbers.

Roedd ganddyn nhw syniad i drefnu gwyliau gyda'i gilydd fel yn eu dyddiau prifysgol.

They had an idea to arrange a holiday together like in their university days.

Ffoniodd Suzi Anna ychydig ddyddiau yn ddiweddarach.

Suzi phoned Anna a few days later.

"Gadewch i ni fynd i Fecsico - ewch i'r anialwch a dringo llosgfynydd".

"Let's go to Mexico - go to the desert and climb a volcano".

Roeddent yn synnu pan gytunodd eu teuluoedd i fynd ar y daith.

They were surprised when their families agreed to go on the trip.

Yna aeth popeth o'i le.

Then everything went wrong.

Roedd y pandemig firws byd-eang yn golygu nad oedd yn ddiogel teithio.

The global virus pandemic meant that it was not safe to travel.

Fe wnaethant gydbwyso'r risgau a phenderfynu canslo'r gwyliau.

They balanced the risks and decided to cancel the holiday.

Meddyliodd Suzi yn sydyn - roedden ni'n arfer cael teithiau cyffrous i Sir Benfro pan oedden ni'n fyfyrwyr.

Suzi suddenly thought - we used to have exciting trips to Pembrokeshire when we were students.

Daeth Suzi o hyd i'w chyfarpar ar gyfer deifio a dringo a oedd wedi'i storio i ffwrdd mewn cwpwrdd.

Suzi found her equipment for diving and climbing which had been stored away in a cupboard.

Ffoniodd Anna gyda chynllun.

She phoned Anna with a plan.

"Gallwn archebu bwthyn, yna efallai mynd i ddringo ar y clogwyni a deifio ar hyd y lan.

"We can book a cottage, then perhaps go climbing on the cliffs and diving along the shore.

Bydd yn anhygoel o hyd".

It will still be amazing".



Use of Welsh: Pizza recipe

On the web page you are asked to translate the recipe into Welsh:

CYNHWYSION.

INGREDIENTS.

16 owns toes pizza.

16 ounces pizza dough.

7 owns saws tomato, 4 owns caws Mozzarella wedi'i gratio.

7 ounces tomato sauce, 4 ounces Mozzarella cheese grated.

1/2 cwpas tomatos wedi'u sychu'n haul, 1 nionyn bach coch, 3 pupur.

1/2 cup sun-dried tomatoes, 1 small red onion, 3 peppers.

Garlleg, basil ffres, halen môr, pupur du.

Garlic, fresh basil, sea salt, black pepper.

CYFARWYDDIADAU.

INSTRUCTIONS.

Cynheswch y popty i 450 gradd F.

Heat the oven to 450 degrees F.

Torrwch y tomatos wedi'u sychu'n haul, y nionyn coch a'r pupurau yn stribedi tenau.

Cut the sun-dried tomatoes, red onion and peppers into thin strips.

Briwiwch y garlleg a thorri'r basil, a rhoi i'r ochr.

Mince the garlic and chop the basil, and put aside.

Rhowch y toes ar arwyneb gwastad wedi'i orchuddio â blawd.

Place the dough on a flat surface covered with flour.

Ymestynnwch y toes yn ysgafn i gylch 14-16 modfedd.

Gently stretch the dough into a 14-16 inch circle.

Taenwch y saws i hanner modfedd o'r ymylon.

Spread the sauce to half an inch from the edges.

Ysgeintiwch y caws yn gyfartal ar draws y toes.

Sprinkle the cheese evenly across the dough.

Taenwch y tomatos wedi'u sychu'n haul, nionyn coch, pupurau, garlleg a basil yn gyfartal dros y caws.

Spread the sun-dried tomatoes, red onion, peppers, garlic and basil evenly over the cheese.

Ysgeintiwch halen a phupur.

Sprinkle with salt and pepper.

Pobwch nes bod y gramen yn grensiog a chaws yn toddi, tua 12-14 munud yn dibynnu ar eich popty.

Bake until the crust is crispy and cheese melts, about 12-14 minutes depending on your oven.

Description

- Beth all staff y swyddfa ei weld o'r ffenestri?
- A yw llawer o bobl yn gweithio yn y swyddfa?
- Pa offer sydd gan bob person ar ei ddesg?
- A oes lle storio ar gyfer dogfennau?
- A oes unrhyw un wedi personoli ei lle gwaith?



Understanding Welsh

Plant yn gor-ddefnyddio dyfeisiau electronig – oes angen i ni boeni?

Mae `n amlwg fod plant a phobl ifainc yn treulio mwy o`u hamser yn defnyddio dyfeisiau electronig. Gall hynny fod yn wyliau'r teledu, gwrando ar gerddoriaeth neu chwarae gêmâu electronig. Mae `r gwaith ymchwil o fewn y maes hwn yn dechrau cydnabod problemau a thrifferthion wrth or-ddefnyddio'r dyfeisiau. Ond, gallwn gydnabod fod y cyfleoedd i ddysgu drwy ddyfeisiau electronig yn bwysig o fewn plentyndod.

Y newid mwyaf yw`r amser y mae plant yn ei dreulio o flaen y sgrîn ac yn defnyddio dyfeisiau electronig. Mae cyfartaledd yn chwech awr a hanner y dydd. Gall amser cyswllt plant a phobl ifanc ar y dyfeisiau wneud gwahaniaeth i batrymau cysgu ac ymddygiad.

Mae gorddefnydd o rwydweithiau cymdeithasol yn arwain at rannu gormod o wybodaeth, at ddylanwadu ar hunanddelwedd corfforol a bod yn agored i gynnwys a chyngor niweidiol. Gall hyn gael effaith negyddol ar eu lles.

Mae angen mwy o waith ymchwil o fewn amser y mae plant a phobl ifanc yn ei dreulio o flaen sgrîn. Bydd astudiaethau yn y maes hwn yn sicrhau bod gan rieni y wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf cywir i wneud y penderfyniad cywir o ran defnyddio sgrin.

What are the main activities for which children use electronic devices?

Mae plant yn defnyddio dyfeisiau electronig yn bennaf ar gyfer gwyliau'r teledu, gwrando ar gerddoriaeth, chwarae gemau, a chysylltu â ffrindiau trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

What beneficial use of electronic devices by children is mentioned in the article?

Mae plant yn gallu ddysgu drwy ddyfeisiau electronig.

For how much time each day do children use electronic devices on average?

Mae plant yn ei dreulio cyfartaledd o chwech awr a hanner y dydd yn defnyddio dyfeisiau electronig.

According to the article, in what ways can use of electronic devices affect children?

Mae gorddefnydd o ddyfeisiau electronig yn gwneud gwahaniaeth i batrymau cysgu ac ymddygiad plant.

What dangers are associated with children's use of social media?

Peryglon i blant wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yw rhannu gormod o wybodaeth bersonol, ddylanwadu ar eu hunanddelwedd gorfforol yn negyddol a chael mynediad i gynnwys a chyngor niweidiol.

According to the article, who should be made aware of the results of research into children's use of electronic devices?

Dylai rhieni cael canlyniadau'r ymchwil er mwyn wneud y penderfyniadau cywir ynglŷn â defnydd o ddyfeisiau electronig gan eu plant.

Story board

Exploring an old lead mine

1: We arrive at the old mine along a track through the forest. The remains of old buildings can be seen, where the ore was crushed and the lead extracted.

Rydyn ni'n cyrraedd yr hen fwynglawdd ar hyd trac drwy'r goedwig. Mae adfeilion hen adeiladau i'w gweld, lle cafodd y mwyn ei falu a'r plwm ei gwahannu.



2: Several tunnels enter the mine.

Mae sawl twnnel yn mynd i mewn i'r mwynglawdd.



3: We follow a tunnel. This has a railway track along which the trucks of ore were pushed by hand.

Rydyn ni'n dilyn twnnel. Mae gan hwn drac rheilffordd lle'r oedd y tryciau mwyn yn cael eu gwthio â llaw.



4: We arrive at a chamber where there is a huge underground water wheel. This provided power for pumping water from the lower levels of the mine, and for hauling up buckets of lead ore.

Rydyn ni'n cyrraedd siambr lle mae olwyn ddŵr danddaearol enfawr. Roedd hyn yn darparu pŵer ar gyfer pwmpio dŵr o lefelau isaf y pwall, ac ar gyfer codi bwcedi o fwyn plwm.



5: Not far away is the mine shaft leading down to the lower levels which are now flooded.

Dim yn bell mae siafft sydd yn arwain i lawr at lefelau is y maent yn bellach dan ddŵr.



6: Continuing through the mine, we reach the bottom of a shaft which leads upwards to the surface at the top of the hill.

Wrth barhau trwy'r mwylnglawdd, rydyn ni'n cyrraedd gwaelod siafft sy'n arwain i fyny i'r wyneb y ddaear ar ben y bryn.



6 Llŷn

Language notes

Pronouns avoid clumsy repetition of nouns, for example:

'John picked up the box and John put the box on the table'
may be written more neatly as:

'John picked up the box and he put it on the table'

We have already met the personal pronouns, which often appear after verbs:

	singular		plural	
1st person	i, fi	I, me	ni	we, us
2nd person	ti, di	you	chi	you
3rd person	e/o, fe/fo hi	he, him she, her	nhw	they, them

The normal 1st person singular form after a verb is '**i**', for example:

Es i i'r dref ddoe I went to town yesterday

In this case, the personal pronoun is representing the **subject** of the sentence, i.e. the person carrying out the action. If a 1st person singular pronoun represents the **object** of the sentence who is the recipient of the action, then the '**fi**' form is used.

For example:

Welodd e fi yn y dre	He saw me in town
Helpwch fi	Help me
Stopiodd yr heddlu fi	The police stopped me

A similar rule applies to the 3rd person singular masculine, with **e** (South Wales) /**o** (North Wales) applying to the subject, and **fe/fo** applying to the object of the sentence, for example:

Cwrddodd e fe yn y bore He met him in the morning

The normal 2nd person singular form after a verb is '**ti**', for example:

Roeddet ti'n meddwl You were thinking

However, in the cryno future tense the alternative form '**di**' is used:

Gwnei di benderfyniad You will make a decision

Demonstrative pronouns are used to identify particular persons or objects:

	masculine	feminine
this	hwn	hon
that	hwnnw	honno
these		y rhain
those		y rheiny

In the singular, the pronoun used depends on the gender of the noun, for example:

Cerddon ni dros y bont hon ac i lawr y ffordd honno.

We walked across this bridge and down that road.

Different forms of 'this' and 'that' (singular) are used when referring to ideas or extended pieces of information, rather than specific persons or objects.

this	hyn
that	hynny

For example:

Mae hynny yn gynllun ardderchog.

That is an excellent plan.

Some very common idiomatic expressions use **hyn** or **hynny**, for example:

serch hynny	despite that
ar hyn o bryd	at the moment
erbyn hyn	by now
hyd yn hyn	so far, yet
bob hyn a hyn	every now and then

The expression '**hynny yw'** ('that is') is equivalent to the English term 'i.e.' and can be written as the abbreviation '**h.y.**', for example:

yn y gaeaf, h.y. mis Tachwedd i fis Chwefror

in the winter, i.e. November to February

Some prepositions conjugate in a similar way to a short form verb when used with pronouns. For example:

i mi	amdana i	ohona i
i ti	amdanat ti	ohonat ti
iddo fe/fo	amdanfe/fo	ohono fe/fo
iddi hi	amdanhi	ohoni hi
i ni	amdanon ni	ohonon ni
i chi	amdanchi	ohonoch chi
iddyn nhw	amdanyn nhw	ohonyn nhw

Also conjugating with pronouns are: **gan**, **ar**, **at**, **wrth** and **yn**.

Examples are:

Rhoddais anrheg iddi hi.
Roedden ni'n siarad amdanoch chi.
Cwynodd e wrthon ni
Derbyniais neges ganddo fe
Byddaf yn rhoi dŵr ynddo

I gave a present to her.
We were talking about you.
He complained to us.
I received a message from him
I will put water in it

Treigladau

We have discussed situations in which a pronoun is placed before a noun to indicate possession, for example:

Dyma fy llyfr This is my book

and after a noun for emphasis:

Fy arian i yw hwn, nid arian John This is my money, not John's

Another situation is where a pronoun is placed between a preposition and a noun, for example: 'to my town', 'with your son', 'from her car'.

These phrases can be written in full, but are more commonly compressed. The complete and shortened forms with **i** are:

i fy nhref	i'm tref	to my town
i dy dref	i'th dref	to your town
i ei dref	i'w dref	to his town
i ein tref	i'n tref	to our town
i eich tref	i'ch tref	to your town
i eu tref	i'w tref	to their town

Phrases using **â**, **gyda** and **o** follow the pattern:

gyda fy mhlant	gyda'm plant	with my children
gyda dy blant	gyda'th blant	with your children
gyda ei phlant	gyda'i phlant	with her children
gyda ein plant	gyda'n plant	with our children
gyda eich plant	gyda'ch plant	with your children
gyda eu plant	gyda'u plant	with your children

When the compressed form is used, any necessary treiglad follows the same rule as when the pronoun is written in full. The only exception is for the first person singular, where the **treiglad trwynol** is not applied:

i fy nhŷ	i'm tŷ	to my house
o fy ngardd	o'm gardd	from my garden
gyda fy niod	gyda'm diod	with my drink
siarad â fy mrawd	siarad â'm brawd	speak to my brother

Idioms

The word '**heb**' is often be translated as the English word 'without'.

Daeth y myfyriwr heb ei lyfrau.

The student came without his books.

'**heb**' can be used in various verb tenses to indicate a negative condition:

Rydyn ni heb clywed newyddion am y ddamwain.

We have not heard news of the accident.

Mae e heb ei dalu am y gwaith.

He has not been paid for the work.

'**heb**' appears in various idioms:

heb amheuaeth - without a doubt

Heb amheuaeth, mae arfordir Sir Benfro yn brydferth.

Without a doubt, the coast of Pembrokeshire is beautiful.

heb ei ail - second to none, without equal

Mae'r orsaf trydan dŵr yn Llanberis heb ei ail.

The hydro-electric power station at Llanberis is without equal.

heb sôn am - not to mention

Rhaid i ni dalu rent bob mis, **heb sôn am** drydan a dŵr.

We must pay rent each month, not to mention electricity and water.

heblaw am - apart from

Nid oes angen wneud unrhyw beth yn yr ardd **heblaw am** torri'r lawnt.

There is no need to do anything in the garden other than mowing the lawn.

heb os nac onibai - without doubt

Bydd ein cwmni'n ennill y contract **heb os nac onibai**.

Our company will win the contract without a doubt.

heb yn wybod i - unobserved by, without the knowledge of

Aeth i mewn i'r adeilad **heb yn wybod i'r gofalwr**.

He went into the building unobserved by the caretaker.

Sentences

Mae eu tŷ nhw yn filltir o'n tref ni.

Their house is a mile from our town.

Pam ydych chi'n cuddio rhagdyn nhw?

Why are you hiding from them?

Byddaf yn talu deg punt i chi yr wythnos nesaf.

I will pay you ten pounds next week.

Roedd Tân difrifol yn y ffatri honno.

There was a serious fire in that factory.

A fyddan nhw'n mynd yno nos yfory?

Will they go there tomorrow night?

Prynais i'r llyfr hwn yn eich siop ddoe.

I bought this book in your shop yesterday.

Mae'n well ganddyn nhw fynd i'r dref yn ei gar ef.

They prefer to go to the town in his car.

Wnewch chi fynd â'r rhain i Swyddfa'r Post?

Will you take these to the Post Office?

Daethon nhw gyda ni i'r Alban ac Iwerddon.

The came with us to Scotland and Ireland.

Gofynnais iddyn nhw am esboniad o'r broblem.

I asked them for an explanation of the problem.

Byddaf yn dangos i chi sut mae hyn yn gweithio.

I will show you how this works.

Maen nhw'n ffrindiau i fy mam a fy nhad.

They are friends of my mother and my father.

Ces i'r rhain allan o'r oergell i'w bwyta i ginio.

I got these out of the fridge to eat for lunch.

Ai dyna ydy'r llyfrau y gwnaethoch chi eu benthyg o'r coleg?

Are those the books you borrowed from the college?

Nid oedd hynny'n syniad da pan oedden ni'n brin o arian.

That was not a good idea when we were short of money.

Gofynnodd i mi bostio'r llythyr ar fy ffordd adref.

He asked me to post the letter on my way home.

A fyddwch chi'n teithio yn y bws hwn neu'r un hwnnw?

Will you travel in this bus or that one?

Cyhoeddwyd y rheiny y llynedd, nid eleni.

Those were published last year, not this year.

Fe wnaethon ni anfon cardiau Nadolig at ein ffrindiau cyn i ni fynd ar wyliau.

We sent Christmas cards to our friends before we went on holiday.

Rhaid inni orffen y cyfrifon hyn cyn i ni ddechrau gweithio ar y rheiny.

We must finish these accounts before we start work on those.



Article: Llŷn

Llŷn yw'r penrhyn hir sy'n ymestyn i'r gorllewin o Eryri.

Llŷn is the long peninsula which extends west from Snowdonia.

Mae'n rhanbarth o ffermydd bach traddodiadol, pentrefi harbwr bach a rhai trefi mwy.

It is a region of traditional small farms, small harbour villages and some larger towns.

Mae gan yr arfordir draethau hyfryd, baeau a chlogwyni-môr.

The coast has beautiful beaches, bays and sea-cliffs.

Mae llwybr troed pellter hir yn ymestyn o amgylch y penrhyn cyfan, o Caernarfon i Borthmadog.

A long-distance footpath extends around the whole peninsula, from Caernarfon to Porthmadog.

Mae Llŷn yn gyfoethog o ran ddiwylliant a threftadaeth Gymreig.

Llŷn is rich in Welsh culture and heritage.

Pentref pysgota Aberdaron oedd yr arhosfan olaf i bererinion cyn croesi'r môr i fynachlog Ynys Enlli.

The fishing village of Aberdaron was the last stop for pilgrims before crossing the sea to the monastery of Ynys Enlli.

Roedd Llithfaen yn ganolfan bwysig ar gyfer chwarela gwenithfaen.

Llithfaen was an important centre for granite quarrying.

Pentref i weithwyr yn y chwarel wenithfaen gyfagos oedd Nant Gwrtheyrn.

Nant Gwrtheyrn was a village for workers at the nearby granite quarry.

Gadawyd y pentref, ond mae bellach wedi'i adfer.

The village was abandoned, but has now been restored.

Mae'n gartref i Ganolfan Iaith Genedlaethol Cymru.

It is home to the Welsh National Language Centre.

Ar y mynydd uwchben ydy'r olion rhyfeddol Tre'r Ceiri.

On the mountain above are the amazing remains of Tre'r Ceiri.

Mae'n bentref cynhanesyddol lle roedd pobl yn byw tan tua 2,000 o flynyddoedd yn ôl.

